# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 11-09 (p2) : 30 Ebrill 2009**

## 1. Pwrpas – Cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) Cymru

Pwrpas y papur hwn yw darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu ar:

- gefndir polisi'r Cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA);
- effaith cynllun LCA Cymru;
- darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun LCA Cymru 2008/09, gan ymhelaethu ar y datganiadau ysgrifenedig a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008 a mis Chwefror 2009;
- newidiadau gweinyddol a threfniadau monitro 2009/10 i gynllun LCA Cymru.

### 2. Rhagymadrodd

Mae LCA yn daladwy i ymgeiswyr sydd

- rhwng 16 a 18 oed, mewn Addysg Bellach neu ar gwrs o fath Addysg Bellach;
- yn astudio ar gyrsiau amser llawn sydd ag o leiaf 12 awr o oriau cyswllt ac sy'n para o leiaf 10 wythnos; ac
- sy'n dod o aelwydydd sydd ag incwm aelwyd o £31,518 neu lai.

*Gweler Atodiad A am y manylion llawn*

Cyflwynwyd y Cynllun LCA yng Nghymru yn 2004 pan gyflwynwyd cynllun LCA gan bob un o bedair gwlad y DU. Y bwriad oedd y byddai LCA yn chwarae rhan o bwys yn ehangu mynediad i addysg bellach ac addysg uwch, drwy annog mwy o bobl ifanc o gefndiroedd incwm is, a fyddai fel arall efallai wedi rhoi'r gorau i addysg, i fanteisio ar addysg ôl-orfodol academaidd neu alwedigaethol.

Datblygwyd natur a ffurf y cynllun drwy werthuso'r gwahanol gynlluniau peilot a roddwyd ar waith yn Lloegr a'r Alban rhwng 1999 a 2004. Dangosai'r gwerthusiad fod yr LCA yn arwain at gynnydd o 5.9 pwynt canran yng nghyfranogiad pobl iau gymwys mewn addysg ôl-16 yn yr ardaloedd peilot. Ymysg yr effeithiau cadarnhaol eraill roedd:

- Effaith gadarnhaol arbennig o amlwg mewn ardaloedd trefol, ac ymysg dynion ifanc a'r rhai a oedd yn gymwys i gael y dyfarniad LCA llawn
- Effaith gadarnhaol o ran cynyddu dyhead pobl ifanc i fanteisio ar Addysg Bellach ac i barhau i ymroi i'w cyrsiau; gwelwyd gwelliant sylweddol yn y lefelau presenoldeb
- Cafodd yr agwedd 'rhywbeth am rywbeth' sy'n sylfaen i'r LCA effaith gadarnhaol yn annog myfyrwyr i wneud ymdrech ychwanegol.

Cyflwynwyd y cynllun LCA yng Nghymru a Lloegr yn raddol dros 3 blynedd: roedd yn cynnwys pobl ifanc 16 oed yn 2004, 16 a 17 oed yn 2005, ac fe'i gweithredwyd yn llawn i bobl ifanc 16, 17 a 18 oed yn 2006.

### 3. Cyllid

Roedd y gwariant ar y grant LCA i fyfyrwyr ym mlwyddyn academaidd 2007/08 yn £28m.

Sicrhawyd adnoddau ychwanegol oddi wrth y Trysorlys i gyflwyno'r cynllun yng Nghymru. Gwnaed hynny yn wreiddiol ar sail gwariant sy'n cael ei reoli'n flynyddol (h.y. y tu allan i "floc Cymru") ac ar yr amod fod Cymru'n mabwysiadu cynllun LCA tebyg i un Lloegr.

*Nodir manylion y cyllid ar gyfer cynllun LCA Cymru er 2004 yn Atodiad B*

## 4. Datblygu Cynllun LCA Cymru

Yn sgil cyflwyno Cynllun LCA Cymru, mae profiad y rhai yr effeithiwyd arnynt, drwy adborth mewn gohebiaeth, grwpiau ffocws a'r cyhoedd yn gyffredinol, wedi arwain at newidiadau polisi pellach i wneud y cynllun yn fwy hyblyg. Er enghraifft, mae'r newidiadau'n cynnwys:

- cynnig cyfleuster ailasesu yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio lefel incwm yr aelwyd yn y flwyddyn gyfredol;
- asesiad blynyddol o lefel yr incwm cymhwyso;
- cynyddu'r terfyn amser treigl i 8 wythnos rhwng dyddiad cychwyn unigolyn a gwneud cais am LCA;
- ymestyn dyddiad cau'r cynllun i 31 Awst i adlewyrchu'r flwyddyn academaidd; a
- dyfarniad LCA llawn awtomatig i droseddwyr ifanc pan gânt eu rhyddhau o'r ddalfa.

## 5. Gwerthusiad LCA Cymru: Y Prif Ganfyddiadau o'r Dystiolaeth Ansoddol a Gasglwyd

Cynhaliwyd y gwerthusiad yn 2008 a cheisiai, ar sail tystiolaeth ansoddol, sefydlu pa effaith y mae'r LCA wedi'i chael yng Nghymru. Ceisiai hefyd nodi fframwaith gwerthuso ar gyfer y dyfodol gan ddefnyddio dulliau data meintiol. Gellir rhannu canfyddiadau cychwynnol y cynllun yn ddau gategori: effaith academaidd ac effaith gymdeithasol.

*Effaith academaidd*

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd gan ddysgwyr ac ymarferwyr, mae'n ymddangos bod yr LCA wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb myfyrwyr, er ei bod yn ymddangos bod y taliadau is yn cael llai o effaith ar gyfranogiad. Ar sail y dystiolaeth ansoddol yn unig, nid yw'n bosibl dweud a yw'r LCA wedi cael effaith gadarnhaol ar benderfyniad pobl ifanc i barhau mewn addysg ôl-16 nac ar gyrhaeddiad academaidd. Byddai angen gwerthusiad llawn, yn defnyddio methodolegau meintiol manwl. Cyflwynwyd tystiolaeth groes i'w gilydd o ran yr effaith ar gadw myfyrwyr: nid oedd y dysgwyr a gyfrannodd at y gwerthusiad yn credu y bu effaith. Yn gyffredinol, roedd yr ymarferwyr yn anghytuno, gan nodi effaith gadw gadarnhaol, er eu bod yn cydnabod gwendidau o ran gallu darparu data i ategu'r dystiolaeth anecdotaidd hon.

*Effaith gymdeithasol*

Dywedodd y dysgwyr fod yr LCA wedi cael effaith glir a chadarnhaol o ran eu hannibyniaeth ac ar eu bywydau cymdeithasol, gan roi iddynt ystod ehangach o ddewisiadau o ran eu defnydd o'u hamser hamdden.

Mae'r swyddogion yn y broses o astudio canlyniadau'r gwerthusiad cam cyntaf o LCA Cymru i ganfod ble a sut y gellir gwella'r cynllun. Bydd y gwerthusiad ar raddfa fwy a roddwyd ar waith yn yr Alban a Lloegr hefyd yn cael ei gymryd i ystyriaeth.

## 6. Cyflenwi

Roedd gwaith datblygu sylweddol wedi cael ei wneud ar gyflenwi gan Loegr gyda Capita a chan Ogledd Iwerddon gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC). Gan ei bod yn fwy cost effeithiol i Gymru fanteisio ar yr arbedion maint a'r gwaith datblygu a wnaed rhwng SLC a Gogledd Iwerddon, mae'r cyflenwi yng Nghymru yn cael ei wneud drwy brosiect ar y cyd â Gogledd Iwerddon gyda SLC. Telir ffi weinyddu i SLC.

Mae dysgwyr sy'n cael LCA yn ymrwymo i gytundeb dysgu gyda'u hysgol neu goleg ("Canolfan Ddysgu") sy'n nodi beth mae angen i'r dysgwyr ei gyflawni er mwyn parhau ar y cynllun LCA a chael y dyfarniadau wythnosol a thaliadau bonws. Wrth sefydlu'r cynllun yng Nghymru, cynhaliwyd trafodaeth gyda fforwm a CLILC i gytuno ar y trefniadau o ran cytundebau dysgu ystyrlon a monitro presenoldeb yn briodol. Y Canolfannau Dysgu sy'n gyfrifol am gadarnhau presenoldeb a chadarnhau a yw myfyrwyr sy'n cael dyfarniad LCA yn gymwys i gael y taliad bonws chwe-misol sy'n agored i bob un ohonynt. Mae canolfannau dysgu sydd â deg neu ragor o fyfyrwyr LCA ar eu cofrestr wedi cael taliad gweinyddu blynyddol am bob myfyriwr LCA ar y gofrestr.

Bob blwyddyn, fel rhan o'r adolygiad blynyddol a'r trefniadau i wella'r cynllun LCA, caiff tîm prosiect newid ei lunio rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r SLC. Mae'n adolygu newidiadau a gwelliannau i'r system, yn cynnwys y porth Gweithredol sy'n rheoli'r gwaith prosesu ceisiadau, asesiadau a thaliadau i fyfyrwyr; a'r Porth Canolfannau Dysgu, sef system ar y we sy'n rheoli cofnodion presenoldeb a bonws pob myfyriwr sydd wedi'i gymeradwyo.

Cynhelir cynadleddau blynyddol hefyd i ymgysylltu â rhanddeiliaid o ysgolion a cholegau, awdurdodau lleol ac eraill sydd â buddiant yn y maes. Fe'u defnyddir i roi gwybodaeth a chyngor ynglŷn â newidiadau a gwelliannau i weinyddiaeth y cynllun ac i gael adborth. Mae nifer o welliannau wedi cael eu gwneud drwy'r broses hon yn cynnwys canllawiau cliriach i ddarpar ymgeiswyr, gwelliannau i'r system a sefydlu fforwm gweinyddwyr er mwyn rhannu arferion da.

## 7. LCA Cymru – Perfformiad 2008/09

Yn wahanol i Loegr, lle'r oedd asiant cyflenwi newydd wedi cael ei gyflwyno, roedd y system a fodolai cynt yn parhau ac yn 2008-9 cymeradwyodd SLC 32,060 o geisiadau. Serch hynny, daeth yn amlwg ym mis Tachwedd 2008 fod lle i bryderu ynglŷn â'r nifer o geisiadau nad oeddent wedi cael eu prosesu. Cytunwyd ar drefniadau wrth gefn a olygai fesurau fel symud staff ychwanegol i'r Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid o'r ganolfan alwadau addysg uwch i brosesu ceisiadau.

Mae'r gwaith o brosesu ceisiadau Addysg Bellach (AB) wastad wedi wynebu cyfnod prosesu brig rhwng mis Awst a mis Tachwedd yn fras. Ceir ymgyrch i hyrwyddo "gwnewch eich cais nawr" o fis Mawrth ond, yn gyffredinol, mae cwsmeriaid yn aros nes iddynt gael eu canlyniadau arholiad (oddeutu mis Awst) cyn gwneud cais.

Gydol y flwyddyn, mae SLC yn darparu datganiadau ystadegol misol i Lywodraeth y Cynulliad ar yr LCA. Seilir bwletin ystadegol misol ar yr ystadegau hyn.

Y rhesymau am y dirywiad o ran perfformiad oedd:

- cyflwyno dau newid gweinyddol i leihau'r posibilrwydd o dwyll ac i gydymffurfio â deddfwriaeth hawlfraint a
- sgil effeithiau'r problemau ehangach yn Lloegr.

Am y tro cyntaf, roedd gofyn cyflwyno dogfennau gwreiddiol (yn hytrach na llungopïau) i brofi pwy yw'r person ac i brofi incwm h.y. roedd angen pasbort neu drwydded geni'r ymgeisydd i brofi pwy ydyw ac roedd angen dogfennau gwreiddiol hefyd i brofi incwm. Prif ddiben y gofynion tystiolaeth yn ymwneud

ag incwm oedd atal twyll (argymhelliad gan dîm diogelwch SLC ar sail cynllun ehangach gan y Llywodraeth), yn bennaf am fod modd ffugio'r dogfennau hyn yn hawdd.

Lle'r oedd cwsmer yn defnyddio tystysgrif geni/mabwysiadu, gofynnwyd iddo gynnwys ffurflen Cadarnhau Hunaniaeth Tystysgrif Geni/Mabwysiadu ychwanegol, wedi cael ei chwblhau gan aelod parchus o'r gymuned. Dyma'r ymarfer gorau a argymhellwyd gan ein tîm diogelwch ac roedd wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus o'r blaen yn y sector Addysg Uwch (AU) i ymladd twyll.

Effeithiodd y ddau newid hyn gyda'i gilydd ar yr amser prosesu. Mae derbyn a phrosesu dogfennau gwreiddiol yn golygu gwneud nifer o brofion twyll ar y dogfennau, a chafodd y tîm hyfforddiant allanol arbenigol. Wedyn, roedd gofyn sganio'r dogfennau, eu storio'n ddiogel a chael dull diogel o'u dychwelyd i'r cwsmeriaid. Ni chafodd llawer o'r dogfennau hyn a ddychwelyd gan SLC eu casglu o'r swyddfa bost leol gan gwsmeriaid (nad oeddent yn bresennol efallai i lofnodi amdanynt eu hunain) a chawsant eu dychwelyd i SLC yn sgil hynny.

O ran y ffurflenni Cadarnhau Hunaniaeth a gwblhawyd gan gwsmeriaid, roedd mwy na'r disgwyl un ai â gwybodaeth ar goll arnynt neu roedd y gwrthlofnod (gan aelod parchus o'r gymuned) yn dod o'r proffesiwn anghywir, er bod canllawiau wedi cael eu cynnwys. Gan fod y ffurflen wedi cael ei mabwysiadu'n llwyddiannus yn y sector AU, ni ragwelwyd y byddai cwsmeriaid AB yn cael unrhyw anawsterau.

Ffactor ychwanegol arall oedd y sylw yn y wasg ynglŷn ag LCA Lloegr a'r anawsterau prosesu yno. Yr effaith ar SLC oedd cynnydd yn y nifer o alwadau gan gwsmeriaid o Gymru/Gogledd Iwerddon a oedd yn poeni bod problemau gyda'u LCA nhw, a hefyd gan ddysgwyr o Loegr nad oeddent yn gallu cyrraedd canolfan alwadau LCA Lloegr.

I fynd i'r afael â'r dagfa o achosion, tynnwyd staff SLC ychwanegol i mewn i helpu'r tîm AB i brosesau'r ceisiadau hyn. Parhaodd y cymorth hwn am nifer o fisoedd. Lle'r oedd hynny'n bosibl, cafodd mwy o alwadau eu cyfeirio i ganolfan gyswllt Bae Colwyn i liniaru'r pwysau ar y tîm AB er mwyn iddo ganolbwyntio ar brosesu.

Cliriwyd y dagfa o geisiadau yn llwyr erbyn 26 Tachwedd a chliriwyd yr ohebiaeth gysylltiol erbyn 5 Rhagfyr 2008. Mae pob cais newydd sydd wedi dod i law ers hynny wedi cael ei brosesu o fewn ychydig ddiwrnodau.

*I gael manylion am gyfeintiau 2008/09 gweler Atodiad C; ac mae'r CLG o ran targedau'n ymwneud â phrosesu ceisiadau myfyrwyr yn Atodiad D*

## 8. Ceisiadau Anghyflawn

Nid yw'r targedau sy'n gynwysedig yn y CLG (Manylion yn Atodiad E) yn dod i rym nes bydd y cwsmer wedi anfon cais sydd wedi'i gwblhau ynghyd â'r holl ddogfennau ategol angenrheidiol. Yn sgil y newidiadau yn 2008/09, cafwyd mwy nag arfer o geisiadau anghyflawn. Mewn achosion felly, rhoddir gwybod i'r cwsmer beth mae angen iddo ei ddarparu a bydd hyd at bedwar llythyr atgoffa'n cael eu hanfon, gyda bwlch o fis yn fras rhyngddynt. Mae'n bosib y bydd ymateb cwsmer yn y post neu ei fod wedi dod i law ond nad yw wedi cael ei logio ac y bydd llythyr atgoffa awtomatig wedi cael ei anfon felly. Mae hyn yn gallu peri pryder i gwsmeriaid ac maent yn cysylltu wedyn â SLC. O ran 2008/09, y nifer dros dro, ar hyn o bryd, o geisiadau anghyflawn sy'n dal heb gael eu setlo yw 1726 neu 4.9% o'r ceisiadau a ddaeth i law.

## 9. Camau a gymerwyd i wella perfformiad: 2009/10

Yn dilyn adolygiad o berfformiad 2008/09, mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno ar y newidiadau canlynol gyda SLC er mwyn gwella’r gwaith prosesu ceisiadau yn 2009/10.

- Tystysgrif Geni

Mae ffurflen gais blwyddyn 09/10 yn hyrwyddo Tystysgrifau Geni gwreiddiol fel prif dystiolaeth, heb yr angen i gwblhau'r ffurflen hunaniaeth. Bydd proses gwirio sampl yn cael ei gweithredu ar ôl cymeradwyo'r ceisiadau. Mae'r broses hon yn anfon ffurflen hunaniaeth at ganran o gwsmeriaid perthnasol (a fydd yn cael ei dethol ar hap) a bydd gofyn iddynt lenwi a dychwelyd y ffurflen.

- Staff Ychwanegol i Wirio Tystiolaeth

Bydd yr aelodau staff ychwanegol hyn yn cael eu cyflogi yn ystod y cyfnod prosesu brig i wirio a dilysu'r dystiolaeth, ac i ddychwelyd y dogfennau i'r cwsmeriaid. Bydd hyn yn gadael y tîm AB craidd i ganolbwyntio ar brosesu. Bydd yr aelodau staff dros dro hyn yn cael eu sgrinio o safbwynt diogelwch. Byddwn yn cytuno ar yr union nifer sy'n ofynnol a'r amseru gyda thîm effeithlonrwydd busnes SLC ar ôl archwilio cyfeintiau'r ceisiadau yn 2008/09, a byddwn yn cytuno ar y gost ychwanegol. Credir mai'r adnodd ychwanegol hwn fydd yn cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y llif gwaith o ran prosesu ceisiadau.

- Hyrwyddo GWNEWCH EICH CAIS NAWR!

Er mwyn annog ceisiadau i gael eu cyflwyno mor gynnar â phosibl, mae'r holl lenyddiaeth a'r ohebiaeth yn cyfeirio at y neges hon.

- Gwelliannau pellach i'r Wybodaeth, y Cyngor a'r Canllawiau i wneud y gofynion yn gliriach ac i leihau'r nifer o geisiadau anghyflawn a gwallus.

Bydd hyn yn cael ei raeadru drwy'r gynhadledd flynyddol a'r holl lenyddiaeth a'r wefan.

- Ychwanegu darpariaeth help newydd ar y wefan

- Adnabod Llais Rhyngweithiol (IVR)

Mae i IVR y gallu i ychwanegu neges frys yn gyflym cyn i'r sawl sy'n ffonio gyrraedd y tîm AB. Gallai hyn gael ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth i gwsmeriaid LCA Lloegr sy'n cysylltu â chanolfan alwadau LCA Cymru pe bai rhywbeth tebyg yn digwydd eto yn Lloegr yn 2009/10.

*Prosesu Ceisiadau*

Bydd hyn yn weithredol yn gynharach nag yn y blynyddoedd blaenorol, ac yn gyffredinol bydd y ceisiadau cyntaf a ddaw i law yn cael eu clirio mewn oddeutu 15 diwrnod. Cyn i'r system fynd yn weithredol bydd y dystiolaeth yn cael ei dychwelyd a bydd llythyr cydnabod yn cael ei anfon at y cwsmer.

*Taliadau i Fyfyrwyr*

Yn ogystal â'r llythyr atgoffa at goleg neu ysgol ar iddynt gadarnhau bod y cytundeb dysgu wedi cael ei lofnodi ac iddynt ddechrau cadarnhau'r presenoldeb wythnosol, bydd "baner" newydd ar y porth LCA yn rhybuddio gweinyddwyr pe baent yn methu unrhyw wythnosau.

Yn ychwanegol at y newidiadau penodol uchel, mae'r cyfleusterau wrth gefn isod yn dal i fodoli:

- Galwadau Ffôn

Yn ystod y cyfnod prosesu brig, mae’r opsiwn i ailgyfeirio galwadau oddi wrth y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid AB i Fae Colwyn, sydd fel arfer yn delio â galwadau AB drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae modd defnyddio’r ganolfan i ymdopi â’r gormodedd o alwadau AB drwy gyfrwng y Saesneg o Gymru. Caiff hyn ei reoli gan ein tîm HUB mewnol sy’n rheoli’r holl lwybro galwadau.

- Sbardun Llwyth Mwyaf

Bydd y tîm prosesu AB yn cytuno ar uchafswm ceisiadau cyn y bydd y trefniadau wrth gefn ychwanegol yn cael eu sbarduno. Gallai hynny olygu bod staff ychwanegol o swyddfa Glasgow yn cael eu rhyddhau i AB (sydd wedi cael eu hyfforddi cyn hyn mewn AB) i gynorthwyo’r tîm craidd. Bydd y cymorth ychwanegol hwn yn parhau nes bydd y nifer o geisiadau sy’n aros i gael eu prosesu wedi cyrraedd lefel y cytunwyd arni.

## 10. Monitro Perfformiad 2009/10

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda SLC drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) blynyddol.

Megis yn y flwyddyn flaenorol, yn ystod y cyfnod prosesu brig, bydd adroddiad prosesu wythnosol ar gael. Bydd y fformat yn cynnwys y wybodaeth ychwanegol sy’n dangos y dogfennau gwreiddiol sy’n dal heb ddod i law a’r Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi’i ddiweddaru a gynigiwyd gan SLC sy’n edrych ar yr amser a gymerir i ddychwelyd tystiolaeth cwsmeriaid.

*Cynhadledd Galwad Wythnosol Weithredol*

Yn y cyfnod prosesu brig, yn ystod yr alwad wythnosol bydd SLC ac APADGOS yn trafod yr ystadegau a ryddhawyd a pha un a gydymffurfiwyd â’r CLG. Yr alwad hon fydd y fforwm i ystyried a ddylid sbarduno trefniadau wrth gefn.

*LCA Lloegr*

Er nad oes gan SLC unrhyw ymwneud uniongyrchol â’r gwaith o brosesu ceisiadau LCA, bydd swyddogion y Cynulliad yn cadw mewn cysylltiad â’r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd ynglŷn â’r cynnydd a wnaed o ran datrys yr anawsterau gweithredol a wynebwyd yn 2008/09 ac unrhyw broblemau sy’n dod i’r amlwg yn 2009/10.

Yn y cyfnod prosesu brig, yn ystod yr alwad wythnosol bydd SLC ac APADGOS yn trafod yr ystadegau a ryddhawyd a pha un a gydymffurfiwyd â’r CLG. Yr alwad hon fydd y fforwm i ystyried a ddylid sbarduno trefniadau wrth gefn.

*LCA Lloegr*

Er nad oes gan SLC unrhyw ymwneud uniongyrchol â’r gwaith o brosesu ceisiadau LCA, bydd swyddogion y Cynulliad yn cadw mewn cysylltiad â’r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd ynglŷn â’r cynnydd a wnaed o ran datrys yr anawsterau gweithredol a wynebwyd yn 2008/09.

**Annex A**

## EMA Wales Key Qualifying Criteria

The key qualifying criteria for the EMA scheme in Wales is broadly similar to that of the other Schemes in England, Scotland and Northern Ireland:

- Aged between 16-18 year olds in Further Education or Further Education type courses
- Studying full time courses or at least 12 hours of contact hours and at least 10 weeks in duration
- Household Income of £31,518 or below

| | 2007/08 | 2008/09 |
|---|---|---|
| Allowance | Household Income | Household Income |
| £30 | up to £20,817 | up to £21,330 |
| £20 | £20,818 to £25,521 | £21,331 to £26,160 |
| £10 | £ 25,522 to £30,810 | £21,161to £31,581 |

## Value of the EMA Scheme

Young people benefitting from the EMA scheme has steadily increased and is in line with what was hoped for and expected with:

- 2004/05 – 14070 – 16 yr old only
- 2005/06 – 25,620 – 16,17, yr olds only
- 2006/07 – 30,370 – 16-18 yr olds
- 2007/08 - 31,180 - 16-18 yr olds
- 2008/09 - 32,060 - 16-18 yr olds ( up to 31 March 2009)

Approximately 82 % of young people who qualify for EMA qualify for the highest award of £30

## Annual Household Income Assessment

The EMA scheme in England adopted the same system of income assessment on that used by Her Majesty's Revenue and Customs (HMRC) to determine Tax Credit Awards. Applicants are asked to supply a Tax Credit Award Notice (TCAN) as evidence of their household income, it was intended that this would be a convenient and user friendly system to help applicants provide details of their household income. Given the treasury's conditions placed on the funding of a scheme in other UK countries this system was adopted for the scheme in Wales, Scotland and Northern Ireland.

The Annual Household Income Assessment is used widely across government when determining support or levels of government help for families and individuals. It is used to determine eligibility for other mechanisms of student support such as statutory support and for the Assembly learning grant for Further education. The method used takes account of those who have a caring

responsibility for the children in their household, whether a single person or a couple and whether married or unmarried. It is considered to be a fair measure of the financial resources each household has in order to meet its needs. It is not unique to EMA and creates a consistent approach regarding government support for families.

**EMA and Household Benefits**

The EMA was designed not to affect household benefits for households; EMA is paid in addition to household benefits such as Child benefit or tax credits, income support or job seekers allowance.

**Independent Students/ exceptions**

It is not generally the case, however there are exceptions to the Annual Household Income Assessment and those young people are entitled to the full award of EMA (£30). They are for the purposes of EMA considered the same as an independent student.

- A student who is a parent themselves
- A student who is living alone and caring for themselves
- A student who is in custody in the Youth Justice System
- A student who is in the care of their local authority

Table below shows Independent students' i.e. those who are estranged from their parents, responsible for a child, or who receive income support.

| **Workstage** | | **Approved** | | | | | **Rejected** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | |
| *Rate of eligibility* | | *£10* | *£20* | *£30* | *Ineligible* | | *£10* | *£20* | *£30* | *Ineligible* |
| | | | | | | | | | | |
| **2006/07** | | 0 | 0 | 460 | 0 | | 0 | 0 | 0 | 10 |
| | | | | | | | | | | |
| **2007/08** | | 0 | * | 480 | 0 | | 0 | 0 | * | 20 |
| | | | | | | | | | | |
| **2008/09 (d)** | | 0 | * | 410 | * | | 0 | 0 | 0 | 10 |

Data are rounded to the nearest 10, numbers smaller than 10
but not zero are represented by "*"
(d) 2008/09 figures are provisional as at 14th April 2009.

# WHAT DO I NEED TO DO TO GET EMA?

Complete and return your application form in the envelope provided.

We will send you an Acknowledgment Letter to confirm we have received your application form.

ASSESSED

We will assess your application.

If we need any further information or evidence to complete our assessment,we will contact you.

We will send you an Award Letter.

You need to agree and sign a Learning Agreement at your school or college.

To receive your EMA, you must attend school or college.

Your school or college will confirm your attendance.

If you attend school or college you will receive a fortnightly payment into your Bank or Building Society account.

If you meet your Learning Agreement objectives you will receive bonus payments.



SFW/EMA/N/V09-10

**Annex B**

**Funding of Cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg Cymru 2004 Onwards**

The cost of the scheme during rollout was:

- 2004/05 – £8.9m
- 2005/06 – £21.4m
- 2006/07– £31.1m

However, Treasury have since relinquished control and have included the funding within Welsh Assembly Government's budgetary control. Since then the costs have been as follows:

- 2007/08 - £28,195,420
- 2008/09 – £28,894,300 (forecast)

Treasury transferred the EMA budget from Annually Managed Expenditure (AME) Departmental Expenditure Limit (DEL) late in the financial year 2007; the budget allocation settlement for Wales was £33m.

The following additional expenditure has been incurred on delivering the scheme through the student loans company

- 2006/07 £1,128,489
- 2007/08 £1,447,030
- 2008/09 £1,626,000 (budget)

In addition we have paid the following administrative payment to learning centres throughout Wales

- 2006/07 £1,136,520
- 2007/08 £1,189,280
- 2008/09 £1,176,400

**Annex C**

**EMA Wales Statistics 2008/09**

[002467] Cumulative number of EMA Wales applications, 2008/09 academic year to date (application status, month, age)
E&LLS, Welsh Assembly Government

| Age | All ages | Approved | Rejected | Other | | Approved | Rejected | Other | | Approved | Rejected | Other |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Application | 2006/07 | | | | 2007/08 | | | | 2008/09 | | | |
| June (start of AY) | 2680 | 1690 | 30 | 970 | 4430 | 0 | 0 | 4430 | 5410 | 0 | 0 | 5410 |
| July (start of AY) | 5880 | 4230 | 70 | 580 | 6830 | 0 | 0 | 6830 | 9790 | 6150 | 120 | 3510 |
| August (start of AY) | 10340 | 7750 | 150 | 2440 | 11990 | 9370 | 180 | 2440 | 14750 | 6150 | 210 | 8390 |
| September | 22240 | 10800 | 220 | 11220 | 23970 | 13720 | 280 | 9960 | 27420 | 13960 | 300 | 13160 |
| October | 29490 | 16740 | 390 | 12350 | 30750 | 20690 | 480 | 9580 | 31930 | 17490 | 380 | 14070 |
| November | 30340 | 24350 | 550 | 5440 | 32380 | 27230 | 630 | 4510 | 34060 | 25950 | 510 | 7610 |
| December | 31320 | 27930 | 620 | 2770 | 32770 | 29500 | 650 | 2610 | 34630 | 28740 | 620 | 5270 |
| January | 31650 | 29000 | 640 | 2020 | 33100 | 30250 | 670 | 2180 | 34210 | 30760 | 700 | 2750 |
| February | 31900 | 29620 | 640 | 1640 | 33360 | 30690 | 670 | 1990 | 35280 | 31390 | 660 | 3230 |
| March | 32160 | 30110 | 680 | 1370 | 33560 | 30970 | 720 | 1870 | 35520 | 32060 | 680 | 2780 |
| April | 32210 | 30290 | 720 | 1200 | 33720 | 31070 | 700 | 1940 | ~ | ~ | ~ | ~ * |
| May | 32230 | 30320 | 730 | 1170 | 33740 | 31410 | 740 | 1590 | ~ | ~ | ~ | ~ |
| June (end of AY) | 32240 | 30320 | 770 | 1160 | 33690 | 31440 | 750 | 1490 | ~ | ~ | ~ | ~ |
| July (end of AY) | 32240 | 30370 | 770 | 1100 | 33690 | 31440 | 770 | 1490 | ~ | ~ | ~ | ~ |
| August (end of AY) | 32290 | 30370 | 770 | 1140 | 33690 | 31460 | 770 | 1450 | ~ | ~ | ~ | ~ |

*Other includes applications that are missing accompanying evidence or other information.*
** Provisional figure for April 21st is 1726*

**Annex D**

The Assembly Government has a Service Level Agreement with the Student Loans Company which contains the following targets for the processing of students' applications:

| | |
|---|---|
| Acknowledge receipt of EMA applications | With 7 working days of receipt |
| SLC to make fortnightly payments to students | SLC to make payments two weeks in arrears on Monday of each week with the exception of seasonal holiday periods. In the event that a payment falls due on a public holiday, the payment will be made on the first working day following that public holiday. |
| SLC to make bonus payments to students | SLC to make bonus payments to students in the weeks specified by WAG. |
| SLC to manage and process applications for appeals | SLC to process EMA appeals within a 14 day period from receipt with a named contact within SLC being assigned to each appeal case. |
| Call answering | Calls received during core hours to be answered within 60 seconds. For target calculation purposes calls abandoned within the 60 second target will be excluded, calls abandoned after 60 seconds will be counted as answered after 60 seconds. |
| Applications processing | Applications to be processed within 15 working days of receipt (applications must be complete and all relevant supporting evidence received). |